



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2011

Awdur: Elaine Matthews

Cyf: 163A2011

Moderneiddio Tâl: Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol, canfuwyd nad yw'r dull presennol yn ddigon cadarn eto i sicrhau y gwiredir buddiannau llawn contract y meddygon ymgynghorol.

Cynnwys

Crynodeb ac Argymhellion	4
Adroddiad Manwl	
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosesau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol ond nid ydynt yn ddigon cadarn eto	8
Er bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cynllunio swyddi yn flynyddol, nid yw'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser wedi cael adolygiad o'u cynllun swydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	8
Defnyddir data gweithgarwch mewn ffordd adeiladol i lywio'r adolygiad o'r cynllun swydd, er bod rhai meddygon ymgynghorol wedi nodi anawsterau o ran dod o hyd i fesurau canlyniadau priodol	10
Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio templed cynllun swydd safonol ond ni chaiff ei gwblhau'n llawn yn y Ganolfan Ganser ac felly mae'n cyfyngu ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddeall materion sy'n deillio o gynlluniau swyddi yn effeithiol	10
Caiff agweddau ariannol ar gontractau meddygon ymgynghorol eu monitro'n briodol	15
Mae cydberthnasau gwaith rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn dda ar y cyfan ond ni chaiff y contract ei ddefnyddio'n llawn i ategu'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau	15
Mae meddygon ymgynghorol o'r farn bod eu cyfleusterau, megis cymorth ysgrifenyddol, gofod swyddfa a chyfarpar TG, yn foddhaol	17
Atodiadau	
Meincnodi sesiynau	18
Yr arolwg o feddygon ymgynghorol: Canlyniadau'r Ymddiriedolaeth	21
Methodoleg	33

Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Crynodeb

1. Contract meddygon ymgynghorol y GIG yw'r fframwaith cenedlaethol sy'n llywodraethu amodau gwaith a graddau cyflog meddygon ymgynghorol. Daeth y *Diwygiad i Gontract Cenedlaethol y Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru* i rym ar 1 Rhagfyr 2003, sef y newid mawr cyntaf i delerau ac amodau meddygon ymgynghorol ers 1948. Cyflwynodd y contract nifer o fuddiannau i feddygon ymgynghorol: graddfa cyflog newydd; trefniadau gwell ar gyfer taliad cydnabyddiaeth ar alw; trefniadau newydd ar gyfer dyfarniadau ymrwymiad clinigol a rhagoriaeth glinigol; ac ymrwymiad i wella trefniadau gweithio hyblyg. Nod yr holl fuddiannau hyn oedd hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol.
2. Mae gwaith cynllunio swyddi effeithiol yn sail i'r broses o weithredu'r contract diwygiedig ac mae'n orfodol ar gyfer pob meddyg ymgynghorol. Nod y broses o gynllunio swyddi yw sicrhau bod y meddyg ymgynghorol unigol a'i gyflogwr yn cytuno ar gynnwys ac amserlen gweithgareddau sy'n rhan o'r wythnos waith. Mae'r contract yn seiliedig ar wythnos waith lawn amser o 37.5 awr, sy'n cyfateb i 10 sesiwn o dair neu bedair awr yr un, gan sicrhau eu bod yn gyson â staff eraill y GIG. Fel arfer, dylai'r wythnos waith gynnwys saith sesiwn ar gyfer Gofal Clinigol Uniongyrchol (DCC), megis clinigau a rowndiau ward, a thair sesiwn ar gyfer Gweithgareddau Proffesiynol Ategol (SPA), megis ymchwil, archwiliad clinigol ac addysgu. Disgwylir i adolygiadau o gynlluniau swyddi gael eu cynnal bob blwyddyn fel rhan o'r contract.
3. Cyflwynwyd y contract diwygiedig er mwyn helpu i gyflawni'r buddiannau canlynol yn benodol:
 - gwella amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol;
 - gwella lefelau recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol;
 - helpu rheolwyr iechyd a meddygon ymgynghorol i gydweithio i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion yng Nghymru.
4. Yn 2004, comisiynwyd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru gan Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r broses o weithredu contract y meddygon ymgynghorol, gan ganolbwyntio ar y broses o gynllunio swyddi. Ers hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi monitro'r broses o weithredu'r contract drwy broses adrodd flynyddol a ddaeth i ben yn 2009.

-
5. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi llawer o arian i weithredu'r contract yng Nghymru drwy gostau sefydlu, taliadau sesiwn ychwanegol i feddygon ymgynghorol ac ariannu prosiect Dangosyddion Canlyniadau Meddygon Ymgynghorol (COMPASS), sydd bellach wedi'i ddirwyn i ben. Fodd bynnag, nid oes unrhyw waith archwilio allanol annibynnol wedi'i wneud i ystyried a yw buddiannau bwriadedig y contract diwygiedig yn cael eu cyflawni, ac yn benodol, a yw'r broses o gynllunio swyddi bellach wedi'i hymgorffori'n llawn fel dull trefniadol mewn cyrff yn y GIG i helpu i ddiffinio ac adolygu cyfraniad meddygon ymgynghorol at y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r archwiliad hwn yn cael ei gynnal ym mhob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG sy'n cyflogi nifer sylweddol o feddygon ymgynghorol, a bydd pob corff yn cael adroddiad lleol. Caiff adroddiad Cymru gyfan ei gyhoeddi ar ôl i'r gwaith maes lleol gael ei gwblhau.
 6. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn wreiddiol yn 1994. Ar yr adeg honno, roedd yr Ymddiriedolaeth yn arbenigo mewn darparu gwasanaethau cancer ac roedd ganddi gyllideb o tua £10 miliwn. Ers hynny, mae Felindre wedi tyfu mewn maint a chymhlethdod, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol. Ad-drefnwyd yr Ymddiriedolaeth ym mis Hydref 2009 a symudodd yr is-adrannau Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Gwasanaethau Sgrinio Cymru ac Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Cancer Cymru i Ymddiriedolaeth GIG newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
 7. Bellach, mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am reoli dwy is-adrannau sy'n darparu gwasanaethau, sef Canolfan Ganser Felindre (y Ganolfan Ganser) a Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'r Ganolfan Ganser yn ysbyty arbenigol sy'n trin cleifion cancer. Caiff y driniaeth ei darparu hefyd mewn clinigau a gynhelir mewn ysbytai ledled de-ddwyrain Cymru. Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n darparu'r holl gymorth gwaed a chynnyrch gwaed yn ne, canolbarth a gorllewin Cymru. Ar yr adeg y cynhaliwyd ein harchwiliad ym mis Tachwedd 2010, roedd yr Ymddiriedolaeth yn cyflogi 35 o feddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser ac roedd tri meddyg ymgynghorol llawn amser a dau feddyg ymgynghorol rhan amser yn cael eu cyflogi yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.
 8. Ym mis Mehefin 2008, cyflwynodd archwilwyr mewnol yr Ymddiriedolaeth adroddiad ar eu hadolygiad o'r broses o weithredu contract y meddygon ymgynghorol a gwaith cynllunio swyddi yn yr Ymddiriedolaeth (gan gynnwys Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru). Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys pum argymhelliad, ac roedd tri ohonynt yn ymwneud â gwaith cynllunio swyddi:
 - dylid ymgymryd â'r gwaith o gynllunio swyddi yn flynyddol a dylai cynlluniau swyddi gael eu cymeradwyo gan y meddyg ymgynghorol a'r cyfarwyddwr meddygol;
 - dylai meddygon ymgynghorol sy'n gweithio mwy na 10 sesiwn ddarparu dogfennaeth ddigonol i ategu'r rhesymau dros weithio sesiynau ychwanegol;
 - nid oedd unrhyw ganllawiau ar gynllunio swyddi a oedd yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth gyfan a dylai'r Ymddiriedolaeth lunio canllawiau.

-
9. Er bod rhai camau wedi'u cymryd mewn ymateb i'r argymhellion hyn, caiff cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran gwaith cynllunio swyddi ei ystyried fel rhan o'r archwiliad presennol. Nod yr archwiliad hwn yw ateb y cwestiwn: 'A yw buddiannau bwriadedig contract newydd y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni?' Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar y graddau yr oedd gwaith cynllunio swyddi wedi'i ymsefydlu yn yr Ymddiriedolaeth fel proses flynyddol a pha mor effeithiol ydoedd o ran hwyluso gwelliannau mewn gwasanaethau. Hefyd, ystyriwyd amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol, a oedd yn rhan o nod ehangach y contract i'r GIG ddarparu gwelliannau parhaus o ran ansawdd bywydau gwaith meddygon ymgynghorol. Nod y buddiannau hyn oedd hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol, ond ni chafodd hyn ei ystyried yn uniongyrchol fel rhan o'r archwiliad.
 10. Mae Atodiad 3 yn rhoi rhagor o fanylion am ein methodoleg archwilio. Mae hyn yn cynnwys arolwg ar-lein o bob meddyg ymgynghorol yn yr Ymddiriedolaeth. Cafwyd ymatebion gan naw meddyg ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru, sef cyfradd ymateb o 24 y cant. Er bod y gyfradd ymateb yn rhesymol ar y cyfan, oherwydd y nifer fach o feddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg nid ydym wedi defnyddio canrannau yn yr adroddiad.
 11. Ein casgliad cyffredinol yw er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynllunio swyddi, nid yw'r dull presennol yn ddigon cadarn eto i sicrhau y gwireddir buddiannau llawn contract y meddygon ymgynghorol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
 - mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosesau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol ond nid ydynt yn ddigon cadarn eto;
 - mae cydberthnasau gwaith rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn dda ond ni chaiff y contract ei ddefnyddio'n llawn i ategu gwaith moderneiddio;
 - mae meddygon ymgynghorol o'r farn bod eu cyfleusterau, megis cymorth ysgrifenyddol, gofod swyddfa a chyfarpar TG, yn foddhaol.

Argymhellion

12. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o argymhellion a ddylai helpu'r Ymddiriedolaeth i wella ei dull presennol o gynllunio swyddi a chyflawni buddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol.

Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru	
A1	Rhoi canllawiau ysgrifenedig clir i feddygon ymgynghorol er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth gyffredin o ddull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio swyddi gan gynnwys ei dull o ddatblygu canlyniadau CAMPUS ¹ .
A2	Cryfhau trefniadau presennol ar gyfer defnyddio gwybodaeth am berfformiad wrth gynllunio swyddi a, lle y bo angen, datblygu dangosyddion canlyniadau newydd os nad oes digon o wybodaeth ar gael.
A3	Datblygu fersiwn electronig o'r templed cynllun swydd er mwyn sicrhau bod cynlluniau swyddi cymhleth yn gywir ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd glir a thryloyw.
A4	Cyfleu neges glir ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â gweithgarwch SPA, a datblygu canlyniadau a ddiffinnir yn glir ar gyfer pob SPA yn y cynllun swydd, gan gynnwys gwybodaeth am leoliad sesiynau SPA.
A5	Datblygu dull o leihau llwythi gwaith gormodol a sicrhau eu bod yn gytbwys, er mwyn i waith gael ei rannu'n deg o fewn timau meddygon ymgynghorol.
A6	Ymchwilio i sut y gellir argraffu sesiynau meddygon ymgynghorol ar eu slipiau cyflog er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n glir i bawb dan sylw.
Argymhellion ar gyfer y Ganolfan Ganser	
A7	Sicrhau bod pob meddyg ymgynghorol yn meddu ar gynllun swydd cyfredol a bod cynllun swydd pob meddyg ymgynghorol yn cael ei adolygu yn flynyddol.
A8	Sicrhau bod meddygon ymgynghorol yn cael rhybudd digonol o gyfarfodydd cynllunio swyddi (pedair i chwe wythnos) er mwyn sicrhau bod ganddynt amser i baratoi'n llawn.
A9	Egluro a dogfennu yn y cynllun swydd yr hyn y mae meddygon ymgynghorol yn ei wneud yn ystod amser rheoli i sicrhau bod y lefel uchel o sesiynau cyfartalog yn briodol.
A10	Cytuno a yw'n briodol bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd cynllunio swyddi yn mynd rhagddynt heb adborth gan reolwyr.
Argymhellion ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru	
A11	Sicrhau bod data ar sesiynau meddygon ymgynghorol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad yn amserol fel rhan o waith monitro blynyddol.

¹ CAMPUS – Derbynnir yn gyffredinol y dylai amcanion, canlyniadau a thargedau perfformiad fod yn Gyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosesau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol ond nid ydynt yn ddigon cadarn eto

Er bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cynllunio swyddi yn flynyddol, nid yw'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser wedi cael adolygiad o'u cynllun swydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

- 13.** Cyn mis Ionawr 2010, dim ond ar sail ad hoc yr oedd meddygon ymgynghorol a oedd yn gweithio yn y Ganolfan Ganser yn cael adolygiad o'u cynllun swydd, yn hytrach nag adolygiad blynyddol fel sy'n ofynnol o dan drefniadau'r contract. Yn dilyn eu penodiad ym mis Ionawr 2010, mae cyfarwyddwr meddygol yr Ymddiriedolaeth a'r cyfarwyddwr clinigol gwasanaethau cancer wedi sicrhau bod cynllunio ac arfarnu swyddi yn flaenoriaeth. Bwriad yr Ymddiriedolaeth nawr yw bod pob meddyg ymgynghorol yn cael adolygiad blynyddol o'i gynllun swydd gyda'r cyfarwyddwr clinigol ac arfarniad gyda'r cyfarwyddwr meddygol.
- 14.** Mewn sefydliadau iechyd lle mae gan gyfarwyddwyr a rheolwyr clinigol ddealltwriaeth gyffredin o waith cynllunio swyddi, maent mewn sefyllfa well i gynllunio'r gwasanaeth yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, yn y Ganolfan Ganser, dim ond os oes materion penodol y mae angen iddi fynd i'r afael â hwy y mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cancer yn mynychu'r cyfarfod. Canfu ein harolwg o feddygon ymgynghorol fod pob ymatebydd o'r farn bod y rheolwyr cywir yn bresennol yn y cyfarfod. Er bod hyn yn addas efallai i is-adran gymharol fach gyda llinellau atebolrwydd agos, dylai uwch aelodau o staff yn y Ganolfan Ganser ystyried a yw'n briodol bod y rhan fwyaf o gyfarfodydd cynllunio swyddi yn mynd rhagddynt heb adborth gan reolwyr yr Ymddiriedolaeth.
- 15.** Ar hyn o bryd, mae'r cyfarwyddwr clinigol yn cysylltu â meddygon ymgynghorol tua pythefnos cyn y cyfarfod i adolygu cynlluniau swyddi. Nododd y meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd fod pythefnos yn ddigon o rybudd er i un ymatebydd i'r arolwg nodi nad oedd yn cael digon o rybudd cyn ei gyfarfod. Mae'r contract yn pwysleisio pwysigrwydd paratoi ar gyfer y cyfarfod ac, yn y byrddau iechyd eraill yng Nghymru, rhoddir rhwng pedair a chwe wythnos o rybudd i feddygon ymgynghorol fel arfer. Dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried rhoi mwy o rybudd i feddygon ymgynghorol am gyfarfodydd cynllunio swyddi er mwyn iddynt gael mwy o amser i baratoi'n llawn.

16. Cyn y cyfarfod, mae'r cyfarwyddwr clinigol yn gofyn i'r meddygon ymgynghorol gwblhau templed cynllun swydd safonol sy'n nodi pa glinigau a gweithgareddau eraill y maent yn ymgymryd â hwy yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cynhyrchu unrhyw ganllawiau ysgrifenedig ffurfiol i feddygon ymgynghorol sy'n nodi'r disgwyliadau sydd ynghlwm wrth gynllunio swyddi. Nododd rhai meddygon ymgynghorol eu bod yn ei chael hi'n anodd llenwi'r templed. Er ei bod yn arfer da i bob meddyg ymgynghorol ddefnyddio'r un templed cynllun swydd safonol, mae angen datblygu fersiwn electronig er mwyn sicrhau bod trefniadau cynllun swydd cymhleth yn gywir ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd glir a thryloyw.
17. Mae'r cyfarwyddwr clinigol wedi pennu amserlen ar gyfer ymgymryd â phob cynllun swydd. Bwriedir mynd i'r afael â chynlluniau swyddi llai syml yn gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol â 12 neu fwy o sesiynau a gofynnwyd i'r meddygon ymgynghorol hyn gwblhau dyddiadur cyn y cyfarfod i ddangos sut y caiff eu hamser DCC ac SPA ei neilltuo.
18. Yn ystod cyfarfod y cynllun swydd, mae'r cyfarwyddwr clinigol yn arwain y drafodaeth gyda'r meddyg ymgynghorol yn seiliedig ar y gweithgarwch a nodir yn nhempled y cynllun swydd. Mae'r swyddog Adnoddau Dynol ar gyfer staff meddygol yn mynychu pob cyfarfod ac yn gwneud nodiadau gair am air o'r cyfarfod, a gedwir gyda'r cynllun swydd. Mae ein hadolygiad o'r cynlluniau swyddi a nodiadau'r cyfarfodydd yn dangos bod gweithgareddau wythnosol y meddygon ymgynghorol yn cael eu trafod yn fanwl.
19. Ar yr adeg y cynhaliwyd ein harchwiliad ym mis Tachwedd 2010, dim ond naw o'r 35 o feddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser oedd wedi cael adolygiad o'u cynllun swydd. Mae hyn yn gyfystyr â llai na thraean o'r meddygon ymgynghorol a gyflogir gan y Ganolfan Ganser ac mae angen iddynt gyflymu'r broses o gwblhau'r holl gynlluniau swyddi am y tro cyntaf.
20. Mae'r trefniadau yn y Ganolfan Ganser yn wahanol i'r rheini sydd ar waith ar gyfer y tîm cymharol fach o feddygon ymgynghorol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, lle y cynhelir proses o gynllunio swyddi ac arfarniadau bob blwyddyn. Mae gan bob meddyg ymgynghorol gynllun swydd wedi'i gwblhau'n llawn, sy'n cyfateb i'w faes cyfrifoldeb. Mae'r cynllun swydd hwn yn cynnwys canlyniadau a champau gweithredu disgwylidig gan gynnwys yr hyn y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei wneud i gynorthwyo'r meddyg ymgynghorol i gyflawni ei ganlyniadau. Er i Wasanaeth Gwaed Cymru gydnabod bod y contract yn darparu eglurder o ran oriau disgwylidig, gweithgareddau SPA, ymrwymadau ar alw a chydabyddiaeth addas, nid oedd o'r farn bod cynllunio swyddi mor bwysig gan fod y meddygon ymgynghorol yn trafod eu gwaith yn rheolaidd ac mae cyfarfod y cynllun swydd yn broses ffurfiol a gynhelir unwaith y flwyddyn.

Defnyddir data gweithgarwch mewn ffordd adeiladol i lywio'r adolygiad o'r cynllun swydd, er bod rhai meddygon ymgynghorol wedi nodi anawsterau o ran dod o hyd i fesurau canlyniadau priodol

- 21.** O dan y trefniadau newydd a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2010, mae'r cyfarwyddwr clinigol yn y Ganolfan Ganser yn defnyddio gweithgarwch yr Ymddiriedolaeth a data ar ganlyniadau cleifion i lywio'r drafodaeth ar gynllunio swyddi. Mae'r cyfarwyddwr clinigol yn hyderus bod y data hwn yn gadarn a bod meddygon ymgynghorol yn gallu cael gafael arno'n hawdd, ond nododd rhai meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'r arolwg nad oeddent yn gallu cael gafael ar ddata'r Ymddiriedolaeth. Roedd y meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd yn derbyn bod y data hwn yn eithaf sylfaenol ond ei bod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafod gweithgarwch. Er enghraifft, gall meddygon ymgynghorol â llwythi gwaith mwy cymhleth egluro pam bod llai o gleifion yn cael eu trin. Mae llawer o feddygon ymgynghorol yn dod â'u data gweithgarwch eu hunain i gyfarfodydd hefyd. Nododd meddygon ymgynghorol yr hoffent gael setiau eraill o ddata, ond maent yn cydnabod ei bod yn anodd dod i hyd i gymaryddion mewn llawer o feysydd arbenigol.
- 22.** Roedd meddygon ymgynghorol Gwasanaeth Gwaed Cymru yn defnyddio data'r Ymddiriedolaeth a'u data hwy eu hunain hefyd i lywio cyfarfod y cynllun swydd. Mae trallwysu gwaed yn wasanaeth a reoleiddir yn llym ac mae pob meddyg ymgynghorol yn gyfrifol am sicrhau bod ei faes ei hun yn cael ei reoli'n gywir. Mae'r drafodaeth yn seiliedig ar feddygon ymgynghorol yn cyflawni eu cyfrifoldebau ym maes llywodraethu clinigol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio templed cynllun swydd safonol ond ni chaiff ei gwblhau'n llawn yn y Ganolfan Ganser ac felly mae'n cyfyngu ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddeall materion sy'n deillio o gynlluniau swyddi yn effeithiol

Mae gostyngiad wedi bod yn nifer gyfartalog y sesiynau a gynhelir gan feddygon ymgynghorol dros y tair blynedd diwethaf er bod nifer y sesiynau rheoli yn uchel ac yn cynyddu

- 23.** Gan fod y Ganolfan Ganser yn uned gymharol fach lle mae'r cyfarwyddwr clinigol a'r cyfarwyddwr meddygol yn adnabod pob un o'r meddygon ymgynghorol, mae wedi sefydlu proses syml ar gyfer cynllunio swyddi. Nododd pob un o'r rheini a gyfwelwyd fod lefelau uchel o foddhad mewn swydd a chydberthnasau gwaith da rhwng rheolwyr a meddygon ymgynghorol. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â rhai problemau, megis lleihau'r amser teithio rhwng clinigau neu'r angen i feddyg ymgynghorol ystyried ffyrdd newydd o weithio, mae'n colli'r cyfle i wneud mwy o'r broses cynllunio swyddi. Un o'r problemau yw nad yw meddygon ymgynghorol yn cwblhau templed y cynllun swydd yn llawn, a rhoddir gwybodaeth gyfyngedig am y gweithgareddau yr ymgymerir â hwy. O ganlyniad, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth wybodaeth glir am yr hyn y disgwylir i'r meddyg ymgynghorol

ei wneud o ddydd i ddydd nac yn union faint o sesiynau sydd eu hangen i gyflawni ei weithgareddau DCC, SPA a rheoli.

24. Ni wnaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru gyflwyno ei ddata ar y sesiynau a gafodd eu cynnwys yng nghynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol i Lywodraeth y Cynulliad fel rhan o'r broses fonitro flynyddol ym mis Gorffennaf 2010. Cafwyd rhywfaint o ddryswch ymhlith staff yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â phwy ddylai gyflwyno data Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'n bwysig bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn deall ble i gyflwyno ei ffigurau yn y dyfodol. Cyflwynwyd ffigurau'r Ganolfan Ganser yn ôl yr angen ym mis Gorffennaf 2010.
25. Mae Arddangosyn 1 yn dangos y nifer gyfartalog o sesiynau a nodwyd yng nghynlluniau swyddi'r Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru yn 2009-10. Dosberthir sesiynau yn ôl gweithgareddau DCC, SPA, arall a rheoli. Y nifer gyfartalog o sesiynau cyfwerth ag amser cyflawn ar gyfer pob meddyg ymgynghorol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru yw 10 sesiwn tra nodir y nifer uchaf yng Nghymru ar gyfer y Ganolfan Ganser, sef 11.84.

Arddangosyn 1: Nifer gyfartalog y sesiynau ar gyfer Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau² 2009-10

Bwrdd Iechyd/ Ymddiriedolaeth	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm	Nifer y Meddygon Ymgynghorol
Abertawe Bro Morgannwg	8.49	2.41	0.26	0.04	11.19	471
Aneurin Bevan	8.20	2.83	0.01	0.22	11.25	339
Betsi Cadwaladr, Canol a Dwyrain	8.48	2.72	0.08	0.16	11.44	284
Betsi Cadwaladr, Gorllewin	8.65	2.28	0.37	0.09	11.38	134
Caerdydd a'r Fro	8.23	2.84	0.15	0.13	11.34	532
Canolfan Ganser Felindre	7.84	2.85	0.00	1.15	11.84	35
Cwm Taf	8.26	2.32	0.15	0.14	10.87	221
Gwasanaeth Gwaed Cymru	8.11	1.89	0.00	0.00	10.00	5
Hywel Dda	8.49	2.37	0.01	0.00	10.89	213
Iechyd Cyhoeddus Cymru	7.65	2.86	0.03	0.00	10.55	76
Powys	7.87	1.67	1.26	0.36	11.16	8
Cyfartaledd Cymru	8.34	2.60	0.14	0.13	11.21	2,318

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Llywodraeth Cynulliad Cymru

² Cyfrifir sesiynau fel rhai cyfwerth ag amser cyflawn er mwyn gwneud cymariaethau.

26. Un o nodau contract y meddygon ymgynghorol oedd gwella amodau gwaith meddygon ymgynghorol drwy leihau'r wythnos waith i 10 sesiwn dros 37.5 awr a hyrwyddo gweithio hyblyg. Am y rheswm hwn, mae pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yn gweithio gyda meddygon ymgynghorol i leihau nifer y sesiynau a weithir ganddynt i 10 yr wythnos. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi meddygon ymgynghorol newydd ar gontractau 10 sesiwn, gyda saith sesiwn DCC a thair sesiwn SPA fel arfer. Tra bod un meddyg ymgynghorol a oedd yn gweithio 14 sesiwn wedi gadael y Ganolfan Ganser yn ddiweddar, mae dau feddyg ymgynghorol yn dal i weithio 16 a 15 sesiwn er i'r Ganolfan Ganser nodi mai ar sail dros dro y maent yn gwneud hyn hyd nes y bydd y penodiadau cyfarwyddwyr dros dro cyfredol yn cael eu gwneud yn barhaol. Mae gan bump o feddygon ymgynghorol eraill y Ganolfan Ganser gontractau 13 neu 14 sesiwn. Mae'r Ganolfan Ganser yn cydnabod bod angen iddi ystyried sut i leihau cyfanswm y sesiynau y mae meddygon ymgynghorol sy'n gweithio mwy na 12 sesiwn yn ymrwymedig iddynt ac mae'n cynnal adolygiadau o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sy'n gweithio mwy na 12 sesiwn yn gyntaf. Mae ein hadolygiad o'r cynlluniau swyddi yn dangos bod un meddyg ymgynghorol wedi gofyn am gael gweithio un sesiwn yn llai tra bod un arall am barhau i weithio 13 sesiwn. Mae hyn yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn.
27. Roedd cyfweiliadau â meddygon ymgynghorol yn awgrymu bod meddygon ymgynghorol a benodwyd yn fwy diweddar â chontract 10 sesiwn yn canfod yn fuan eu bod yn gweithio ar yr un dwysedd ac yn ymgymryd â'r un llwyth gwaith â'u cydweithwyr mwy sefydledig. Er i gynrychiolydd y Pwyllgor Trafod Lleol ddatgan nad yw'r meddygon ymgynghorol dan sylw wedi nodi unrhyw broblemau gyda'u contract, mae angen i'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau er mwyn sicrhau bod y cynlluniau swyddi ar gyfer pob meddyg ymgynghorol yn adlewyrchu'r gwaith gwirioneddol y mae angen i'r Ymddiriedolaeth ei wneud.
28. Mae gan y rhan fwyaf o'r meddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser nifer sylweddol fwy o ymrwymadau amser rheoli nag mewn mannau eraill yng Nghymru (Arddangosyn 1). At hynny, er bod gostyngiad wedi bod yn nifer gyffredinol y sesiynau ar gyfer oncolegwyr clinigol, y grŵp mwyaf o feddygon ymgynghorol, dros y tair blynedd diwethaf, mae eu sesiynau rheoli wedi mwy na dyblu, fel y dangosir yn Arddangosyn 2. Mae dadansoddiad manylach o sesiynau meddygon ymgynghorol yn dangos bod gan 25 o'r 35 o feddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y Ganolfan Ganser o leiaf un sesiwn o amser rheoli.

Arddangosyn 2: Newid yn nifer gyfartalog y sesiynau ar gyfer oncolegwyr clinigol rhwng 2007-08 a 2009-10 ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre

	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm	Nifer y Meddygon Ymgynghorol
2009-10						
Felindre	7.98	2.75	0.00	1.23	11.96	22.02
2008-09						
Felindre	8.57	3.05	0.00	0.79	12.40	19.03
2007-08						
Felindre	8.64	3.00	1.23	0.53	13.40	17.53

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Felindre a Llywodraeth Cynulliad Cymru

29. Roedd y meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd yn awgrymu bod y nifer o sesiynau rheoli yn uchel gan fod y Ganolfan Ganser yn gorfod cyflawni llawer o'r swyddogaethau rheoli ac yn gorfod cynnal llawer o'r cyfarfodydd y mae'n rhaid i fwrdd iechyd mwy o faint ei wneud, megis rheoli heintiau, ond gan ddefnyddio cronfa lai o feddygon ymgynghorol. Drwy nodi'r hyn a ddisgwylir o'r amser rheoli hwn yn gliriach yn y cynllun swydd, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu bod yn hyderus bod gan feddygon ymgynghorol y nifer gywir o sesiynau ar gyfer gweithgareddau rheoli.

Mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â gweithgareddau proffesiynol ategol ym maes cynllunio swyddi ac oherwydd nad yw dulliau gweithredu wedi'u datblygu rhyw lawer, ni ellir gweld pa werth a geir ohonynt

30. Mae Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yn cwmpasu nifer o wahanol fathau o weithgareddau sy'n ategu DCC, gan gynnwys addysgu, datblygiad proffesiynol parhaus ac ymchwil. Y nifer gyfartalog o sesiynau SPA a ddyrennir i feddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Ganser yw 2.85, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru sef 2.60 (gweler Arddangosyn 1). Mae nifer y sesiynau SPA wedi lleihau ychydig ar gyfer oncolegwyr clinigol dros y tair blynedd diwethaf (gweler Arddangosyn 2). Mae gan feddygon ymgynghorol llawn amser Gwasanaeth Gwaed Cymru 2.00 o sesiynau SPA yr un er bod rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut y cânt eu defnyddio.

31. Mae meddygon ymgynghorol Gwasanaeth Gwaed Cymru yn trafod gweithgarwch SPA yn fanwl yn ystod arfarniadau ac yng nghyfarfod y cynllun swydd am eu bod yn ei ystyried yn rhan o rôl meddygon ymgynghorol. Fodd bynnag, yn y Ganolfan Ganser, nid yw'r hyn y mae meddygon ymgynghorol yn disgwyl ei gyflawni yn ystod eu hamser SPA wedi'i nodi'n fanwl yn y cynlluniau swyddi ac ni chaiff ei drafod yn fanwl ychwaith yng nghyfarfod y cynllun swydd. Mae'r nodiadau o gyfarfodydd cynlluniau swyddi'r Ganolfan Ganser yn dangos eu bod yn trafod gweithgareddau addysgu, ymchwil ac archwilio clinigol ond ni chaiff yr amser gwirioneddol a ddisgwylir ar gyfer pob gweithgaredd ei nodi. Nododd y meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd eu bod yn trafod SPA yn fwy manwl yn eu harfarniad.
32. Fodd bynnag, os na cheir eglurhad pellach o ran y canlyniadau a ddisgwylir, ni all yr Ymddiriedolaeth asesu'n llawn a yw SPA yn diwallu'r anghenion datblygu proffesiynol nac anghenion datblygu gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer ei meddygon ymgynghorol. Er mwyn egluro canlyniadau disgwyliedig SPA yn well, gallai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu templed ar gyfer pob un o weithgareddau SPA y meddyg ymgynghorol. Byddai angen i'r meddyg ymgynghorol roi mwy o fanylion am sut y bydd yn dangos ei fod wedi cyflawni'r gweithgarwch hwn a bod rhyw fesur o lwyddiant. Er enghraifft, os yw'r meddyg ymgynghorol wedi neilltuo amser ar gyfer ymgymryd â gwaith ymchwil, yna gallai gofnodi teitlau'r papurau a gyhoeddwyd ganddo.
33. Mae contract y meddyg ymgynghorol yn nodi er bod lleoliadau rhai gweithgareddau SPA (megis addysgu) yn debygol o fod yn rhai rhagnodedig, y gall gweithgareddau eraill (megis paratoi cyflwyniadau) gael eu cynnal yn un o blith nifer o leoliadau. Fel arfer, gall meddygon ymgynghorol gynnal hyd at un sesiwn SPA yr wythnos gartref neu i ffwrdd oddi wrth eu man gwaith arferol. Ar hyn o bryd, nid yw'r cynlluniau swyddi yn nodi lle y mae gweithgarwch SPA yn cael ei gynnal felly ni all yr Ymddiriedolaeth fonitro faint o weithgarwch SPA sy'n cael ei gynnal i ffwrdd oddi wrth yr Ymddiriedolaeth.

Er bod cynlluniau swyddi'r Ganolfan Ganser wedi nodi camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, nid ydynt yn rhai CAMPUS

34. Dylai'r cynllun swydd gynnwys canlyniadau disgwyliedig sy'n nodi dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae'r meddyg ymgynghorol a'r Ymddiriedolaeth am ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf. Mae angen i'r canlyniadau y cytunir arnynt fod yn briodol ac wedi'u cysylltu'n benodol ag amcanion corfforaethol ac amcanion y Ganolfan Ganser.
35. Canfu'r gwaith archwilio a wnaed ar gynlluniau swyddi'r Ganolfan Ganser fod pob meddyg ymgynghorol wedi cytuno ar restr o gamau gweithredu yn y nodiadau trafod. Er ei bod yn arfer da i feddygon ymgynghorol feddu ar gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, gallent fod yn fwy manwl gyda chanlyniadau CAMPUS clir sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth a'r meddyg ymgynghorol unigol i ddeall yr hyn a ddisgwylir, ac i asesu'r hyn a gyflawnwyd, yn ystod y flwyddyn.

36. Mae'r sefyllfa'n gliriach yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru lle mae cynlluniau swyddi yn rhestru canlyniadau disgwylidig y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r rhain yn ganlyniadau CAMPUS ar y cyfan. Trafodir y canlyniadau hyn yn y cyfarfodydd arfarnu a chynllun swydd blynyddol.

Caiff agweddau ariannol ar gontractau meddygon ymgynghorol eu monitro'n briodol

37. Dywedodd tîm cyllid y Ganolfan Ganser wrthym fod y gwaith o fonitro contractau wedi gwella ers mis Ionawr 2010 yn sgîl penodi cyfarwyddwr meddygol dros dro ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a chyfarwyddwr clinigol ar gyfer y Ganolfan Ganser. Pennir cyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn ac, fel deiliad y gyllideb, mae'r cyfarwyddwr clinigol yn gyfrifol am awdurdodi unrhyw newidiadau i daliadau meddygon ymgynghorol. Mae tîm cyllid y Ganolfan Ganser yn gweithio'n agos gyda'r cyfarwyddwr clinigol i sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn sesiynau yn cael eu hawdurdodi'n llawn a'u bod o fewn y gyllideb.
38. Er bod slipiau cyflog meddygon ymgynghorol yn dangos nifer y sesiynau yr oedd meddyg ymgynghorol o dan gontract i'w gweithio, fe'n hysbyswyd nad yw'r system cofnod staff electronig yn rhoi'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, canfu ein harchwiliad fod byrddau iechyd eraill wedi dod o hyd i ffordd o argraffu sesiynau ar slipiau cyflog meddygon ymgynghorol. Argymhellwn y dylai'r Ymddiriedolaeth ymchwilio i sut y gellir argraffu sesiynau ar slipiau cyflog er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n glir i bawb dan sylw.
39. Cynhaliodd tîm cyllid y Ganolfan Ganser ymarfer cysoni yn ddiweddar rhwng y gyflogres a nifer y sesiynau yr oedd meddygon ymgynghorol dan gontract i'w gweithio. Canfuwyd o leiaf un anghysondeb byrdymor lle na chafodd y cynnydd dros dro mewn sesiynau yr oedd meddyg ymgynghorol wedi'u gweithio ei hepgor ar ôl iddo roi'r gorau i weithio'r sesiynau ychwanegol. Cafodd yr anghysondeb hwn ei nodi'n gyflym a deallwn fod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i adennill yr arian hwn. Mae gwaith cysoni rheolaidd yn arfer da a dylid ei ddefnyddio i amlygu unrhyw wallau ar gam cynnar. Mae angen i Wasanaeth Gwaed Cymru sicrhau bod systemau priodol ar waith i awdurdodi newidiadau i sesiynau a hysbysu'r gyflogres am unrhyw newidiadau.

Mae cydberthnasau gwaith rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn dda ar y cyfan ond ni chaiff y contract ei ddefnyddio'n llawn i ategu'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau

40. Mae contract y meddygon ymgynghorol yn nodi bod angen i feddygon ymgynghorol a rheolwyr gydweithio er mwyn nodi ffyrdd priodol o drefnu a darparu eu gwasanaethau yn well. Er enghraifft, gellir dyrannu sesiwn SPA er mwyn rhoi amser i feddyg ymgynghorol gael hyfforddiant mewn therapi newydd sydd ei hangen ar yr Ymddiriedolaeth. Enghraifft arall fyddai defnyddio contractau hyblyg i hwyluso gweithgareddau dros y flwyddyn glinigol 42 wythnos nodweddiadol.

41. Mae'r Ganolfan Ganser yn uned gymharol fach a gwelir cydberthnasau gweithio da rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr. Mae oncoleg yn amgylchedd clinigol sy'n newid yn gyflym gyda chyffuriau a therapiau newydd yn cael eu datblygu a'u cyflwyno'n aml. Canfuwyd bod staff yn ymwybodol o'r angen i addasu i'r newidiadau hyn yn gyson a bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi pwys mawr ar weithgarwch ymchwil a datblygu. Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio prosesau cynllunio swyddi i gefnogi'r newidiadau hyn yn llawn.
42. Mae meddygon ymgynghorol y Ganolfan Ganser yn gweithio mewn timau prosesau clinigol amlddisgyblaethol. Mae'r timau hyn yn ymwneud â thiwmorau mewn rhannau penodol o'r corff, er enghraifft wroleg, a gwasanaethau penodol, er enghraifft radiotherapi. Y grwpiau hyn sy'n gyfrifol am y gwaith o ddatblygu gwasanaethau, er enghraifft, datblygu llwybrau clinigol newydd. Gall y dull hwn o weithredu roi cyfle i ddatblygu cynlluniau swyddi timau a ffyrdd mwy hyblyg o weithio.
43. Un o'r prif ffactorau sy'n ysgogi newid yw'r broblem o recriwtio meddygon iau. Mae hon yn broblem ar draws y GIG yng Nghymru ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau i'w datrys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn moderneiddio gwasanaethau drwy hyfforddi ymarferwyr gofal iechyd eraill i ymgymryd â gwaith a arferai gael ei ystyried yn waith ar gyfer meddygon ymgynghorol yn unig, er enghraifft rhagnodi. Bu hyn yn llwyddiannus ac mae pob rhan o'r Ganolfan Ganser yn bwriadu cyflogi nyrs-ragnodydd yn ei thîm.
44. Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r broses o lenwi ac ail-lenwi swyddi meddygon ymgynghorol o ran p'un a oes angen penodi meddyg ymgynghorol neu a allai grwpiau staff priodol eraill ymgymryd â'r rôl. Gadawodd dau feddyg ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a rhoddodd hyn gyfle i ystyried y modd y caiff eu gwaith ei ddyrannu. Roedd un o'r meddygon ymgynghorol yn gweithio 14 sesiwn; bydd y swydd newydd yn cwmpasu 10 sesiwn gyda'r pedair sesiwn sy'n weddill yn cael eu hailddosbarthu ymhlith staff priodol yn y Ganolfan Ganser.
45. Yn gyffredinol, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cael anhawster recriwtio oncolegwyr ymgynghorol ac mae'r nifer gyffredinol wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae wedi cael anhawster recriwtio radiolegydd newydd oherwydd prinder radiolegwyr yng Nghymru. Mae'r prinder staff hwn wedi ysgogi'r Ymddiriedolaeth i edrych ar ffyrdd amgen o ddarparu'r gwasanaeth, megis prynu sesiynau oddi wrth radiolegwyr ymgynghorol mewn byrddau iechyd cyfagos. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi hyfforddi radiograffwyr i ddarparu radiotherapi anghymleth, sydd wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus.
46. Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru dîm bach o feddygon ymgynghorol sy'n arwain eu meysydd arbenigol eu hunain. Maent yn ymgymryd â gwaith ymchwil a'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ond nid ydynt yn defnyddio'r broses o gynllunio swyddi i foderneiddio gwasanaethau.

Mae meddygon ymgynghorol o'r farn bod eu cyfleusterau, megis cymorth ysgrifenyddol, gofod swyddfa a chyfarpar TG, yn foddhaol

- 47.** Mae contract y meddygon ymgynghorol yn nodi y dylai'r GIG fod yn ceisio gwneud gwelliannau i ansawdd bywyd gwaith meddygon ymgynghorol yn barhaus, gan gynnwys sicrhau bod gofod swyddfa a chymorth addas ar gael ar eu cyfer. Yn ystod ein hadolygiad, ceisiodd ganfod a oedd gan feddygon ymgynghorol gymorth swyddfa priodol i'w galluogi i gyflawni eu hymrwymadau heb unrhyw un yn tarfu arnynt. Nododd pob un o'r meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd yn ystod yr astudiaeth hon fod ganddynt gyfleusterau boddhaol a'u bod yn fodlon iawn ar eu cymorth TG, a werthfawrogir ganddynt yn fawr iawn.
- 48.** Roedd y meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd yn fodlon iawn ar y cymorth ysgrifenyddol a ddarparwyd iddynt er iddynt fynegi rhai pryderon ynghylch y pwysau a roddir ar ysgrifenyddion. Nodwyd na welwyd yr un cynnydd yn y nifer o ysgrifenyddion o gymharu â nifer y meddygon ymgynghorol a benodwyd ac, er bod yr ysgrifenyddion yn gweithio yn lle cydweithwyr sy'n absennol, y gall hyn rhoi llawer o bwysau ar y gwasanaeth.

Atodiad 1

Meincnodi sesiynau

Dadansoddiad yn ôl arbenigeddau 2009-10: cyfartaleddau'r Ymddiriedolaeth

Gwasanaeth Gwaed Cymru	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Trallwysu Gwaed	8.11	1.89	0.00	0.00	10.00

Canolfan Ganser Felindre	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Meddygaeth Liniarol	6.91	3.26	0.00	0.96	11.13
Oncoleg Glinigol	7.98	2.75	0.00	1.23	11.96
Oncoleg Feddygol	6.67	3.33	0.00	0.83	10.83
Radioleg	9.50	2.50	0.00	1.00	13.00
Cyfartaledd	7.84	2.85	0.00	1.15	11.84

Ymddiriedolaeth GIG Felindre	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Cyfartaledd	7.87	2.74	0.00	1.03	11.64

Dadansoddiad yn ôl arbenigeddau 2009-10: cyfartaleddau Cymru gyfan

Arbenigedd	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Adsefydlu	8.00	2.40	0.40	0.43	11.23
Anableddau Dysgu	7.87	3.41	0.07	0.06	11.41
Anestheteg	8.27	2.64	0.04	0.08	11.03
Arbenigeddau Meddygaeth Ddeintyddol	7.82	2.97	0.00	0.18	10.96
Arenneg	8.72	2.94	0.32	0.05	12.03
Biocemeg Glinigol	9.00	3.00	0.00	0.00	12.00

Arbenigedd	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Cardioleg	8.79	2.58	0.06	0.15	11.58
Clefydau Heintus	10.17	3.63	1.00	1.33	16.13
Clust, Trwyn a Gwddf	8.78	2.55	0.17	0.05	11.55
Damweiniau ac Achosion Brys	8.07	2.58	0.18	0.12	10.95
Deintyddiaeth Adferol	7.81	2.72	0.01	0.00	10.54
Deintyddiaeth Bediatrig	7.82	2.18	0.00	0.00	10.00
Dermatoleg	7.62	2.66	0.09	0.13	10.49
Endocrinoleg	7.50	2.62	0.39	0.12	10.63
Ffarmacoleg Glinigol a Therapiwteg	9.33	3.33	0.69	0.38	13.74
Gastroenteroleg	8.10	2.57	0.16	0.05	10.87
Geneteg Glinigol	7.75	3.33	0.31	0.10	11.48
Gynecoleg	8.47	2.56	0.13	0.10	11.27
Hematoleg (Anghlinigol)	8.50	2.50	0.00	0.50	11.50
Hematoleg (Clinigol)	8.61	2.45	0.31	0.11	11.48
Histopatholeg	9.03	2.60	0.32	0.04	11.98
Imiwnoleg Glinigol ac Alergedd	9.00	3.00	0.00	0.00	12.00
Llawdriniaeth ar y Geg	8.86	2.84	0.02	0.05	11.76
Llawdriniaeth Bediatreg	10.54	2.00	0.12	0.00	12.66
Llawdriniaeth Blastig	8.75	2.04	0.56	0.00	11.34
Llawdriniaeth Gardiothorasig	9.76	2.70	0.00	0.00	12.46
Llawdriniaeth Gyffredinol	9.38	2.29	0.19	0.14	12.00
Meddygaeth Alwedigaethol	7.71	2.59	0.07	0.00	10.37
Meddygaeth Awdiolegol	7.62	2.69	0.00	0.00	10.31
Meddygaeth Genhedlol-wrinol	7.70	2.69	0.27	0.00	10.66
Meddygaeth Geriatrig	8.48	2.72	0.19	0.09	11.47
Meddygaeth Gyffredinol	8.35	2.61	0.05	0.11	11.12
Meddygaeth Gymunedol	7.08	2.69	0.00	0.38	10.15
Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd	7.54	2.88	0.06	0.00	10.48
Meddygaeth Liniarol	7.14	2.76	0.41	0.48	10.79
Meddygaeth Thorasig	7.48	2.98	0.33	0.07	10.86

Arbenigedd	DCC	SPA	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Meddygon Teulu - Arall	7.00	3.00	0.00	0.00	10.00
Microbioleg Feddygol	7.93	2.82	0.07	0.01	10.84
Niwroffisioleg Glinigol	7.00	3.00	0.00	0.00	10.00
Niwrolawdriniaeth	9.35	2.28	0.20	0.00	11.83
Niwroleg	8.06	2.75	0.19	0.00	11.01
Niwroleg Bediatrig	9.29	2.38	1.13	0.00	12.80
Offthalmoleg	8.13	2.56	0.08	0.13	10.90
Oncoleg Feddygol	7.92	2.60	0.17	0.15	10.84
Oncoleg Glinigol	8.16	2.61	0.13	0.90	11.81
Orthodonteg	8.19	2.74	0.02	0.19	11.14
Patholeg Gellog	8.86	2.86	0.00	0.00	11.71
Patholeg Gemegol	7.91	2.89	0.02	0.27	11.08
Pediatreg	7.90	2.68	0.19	0.23	11.01
Radioleg	8.47	2.54	0.13	0.15	11.29
Rheumatoleg	7.58	2.82	0.07	0.16	10.63
Salwch Meddwl	7.58	2.66	0.21	0.22	10.66
Seiciatreg Fforensig	7.95	2.75	0.24	0.55	11.49
Seiciatreg Henaint	7.19	2.90	0.39	0.05	10.53
Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc	7.94	2.47	0.24	0.14	10.80
Seicotherapi	8.08	2.31	0.00	0.00	10.38
Trawma ac Orthopedeg	9.03	2.27	0.06	0.05	11.41
Wroleg	9.57	2.28	0.06	0.08	11.99
Cyfartaledd pob arbenigedd	8.34	2.60	0.14	0.13	11.21

Atodiad 2

Yr arolwg o feddygon ymgynghorol: canlyniadau'r Ymddiriedolaeth

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
1	Cyfanswm nifer yr ymatebion		9	...	580
4	Canran y meddygon ymgynghorol a gafodd ddigon o rybudd am ddyddiad eu cyfarfod diwethaf i adolygu eu cynllun swydd	Ie	7	87.5%	87.8%
5	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth o systemau gwybodaeth glinigol/gwybodaeth reoli lleol i ategu trafodaethau am eu gwaith presennol	Ie	5	62.5%	53.4%
6	Canran y meddygon ymgynghorol sy'n defnyddio pob un o'r categorïau canlynol o wybodaeth i'w helpu i baratoi ar gyfer eu cyfarfodydd i adolygu eu cynlluniau swyddi:	Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth	2	22.2%	26.2%
		Eich gwybodaeth bersonol	6	66.7%	67.2%
		Dim	1	11.1%	5.7%
		Arall *	2	22.2%	8.4%
7a	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried gwaith y flwyddyn ddiwethaf cyn y cyfarfod cynllunio swydd	Ie	7	87.5%	89.6%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
7b	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried eu patrwm gwaith a gweithgareddau presennol cyn y cyfarfod cynllunio swydd	le	7	87.5%	95.9%
7c	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried y pwysau a'r rhwystrau a oedd yn peri anhawster iddynt cyn y cyfarfod cynllunio swydd	le	7	87.5%	88.2%
7d	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried unrhyw faterion o ran llywodraethu clinigol ac archwilio clinigol a oedd wedi codi cyn y cyfarfod cynllunio swydd	le	6	75.0%	85.1%
7e	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried effaith mentrau mewnol ac allanol (e.e. diwygiadau yn y GIG, newidiadau o ran anghenion iechyd y gymuned a gofynion hyfforddiant meddygon iau) cyn y cyfarfod cynllunio swydd	le	6	75.0%	68.7%
7f	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried unrhyw syniadau a oedd ganddynt ar gyfer gwella'r gwasanaeth cyn y cyfarfod cynllunio swydd	le	6	75.0%	80.1%
7g	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu ystyried eu cynllun datblygu personol eu hunain a oedd yn deillio o'u harfarniad cyn y cyfarfod cynllunio swydd	le	4	57.1%	81.7%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
8	Canran y meddygon ymgynghorol a gafodd gyfle i weld y wybodaeth a ddefnyddiwyd gan y rheolwyr a oedd yn rhan o'u hadolygiad a chynnig sylwadau arni	Ie (naill ai'r holl wybodaeth neu rywfaint ohoni)	4	44.4%	44.1%
9	Canran y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio'n bennaf i'r GIG	Ie	8	88.9%	93.6%
10	Canran y meddygon ymgynghorol sydd â chontract academaidd	Ie	1	14.3%	11.3%
11	Canran y meddygon ymgynghorol sydd â chontract academaidd, lle yr oedd y Brifysgol yn rhan o'r broses o gytuno ar un cynllun swydd cyffredinol	Ie	1	100.0%	21.6%
12	Canran y meddygon ymgynghorol y caiff eu cynllun swydd ei adolygu'n flynyddol	Ie	5	55.6%	61.5%
13	Canran y meddygon ymgynghorol y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd:	O fewn y tri mis diwethaf	3	33.3%	14.4%
		Rhwng tri a chwe mis yn ôl	4	44.4%	14.7%
		Rhwng chwech a 12 mis yn ôl	0	0.0%	26.3%
		Rhwng 12 a 18 mis yn ôl	0	0.0%	17.2%
		Dros 18 mis yn ôl	1	11.1%	19.1%
		Nid wyf erioed wedi cael adolygiad o'm cynllun swydd	1	11.1%	8.3%
14	Canran y meddygon ymgynghorol y parodd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd:	Llai nag awr	4	50.0%	60.7%
		Rhwng un a dwy awr	3	37.5%	35.7%
		Mwy na dwy awr	1	12.5%	3.6%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
15	Canran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd fod yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd...	Yn iawn fwy neu lai?	6	85.7%	78.6%
16	Canran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd fod y rheolwyr cywir yn rhan o'r adolygiad o'r cynllun swydd	Ie	8	100.0%	87.3%
17	Canran y meddygon ymgynghorol y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd fel rhan o dîm	Ie	1	12.5%	17.4%
18	Canran y meddygon ymgynghorol y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o'u cynllun swydd fel rhan o dîm a gafodd y cyfle i gytuno ar ymrwymadau unigol mewn cyfarfod dilynol	Ie	1	100.0%	52.8%
19a	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd gael ei gynnal mewn ffordd adeiladol a chadarnhaol	Ie	7	87.5%	85.4%
19b	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd gael ei gynnal mewn lleoliad priodol	Ie	6	75.0%	93.9%
19c	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd eu helpu i flaenoriaethu gwaith yn well a lleihau llwyth gwaith gormodol	Ie	4	50.0%	36.1%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
19d	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd eu hysgogi i drafod y camau a allai gael eu cymryd i wella arfer clinigol	le	7	87.5%	46.3%
19e	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod yr adolygiad o'u cynllun swydd yn gyfle i drafod y posibilrwydd o foderneiddio gwasanaethau a chyflwyno ffyrdd arloesol a newydd o weithio	le	6	75.0%	47.1%
19f	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod yr adolygiad o'u cynllun swydd yn eu galluogi i drafod y rhwystrau a'r pwysau y maent yn eu hwynebu a chytuno ar y camau gweithredu i ymdrin â hwy	le	6	75.0%	61.9%
19g	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod yr adolygiad o'u cynllun swydd yn nodi materion a oedd yn berthnasol i grwpiau staff, timau clinigol neu ddarparwyr gwasanaethau eraill	le	6	75.0%	53.0%
19h	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn i'r adolygiad o'u cynllun swydd helpu i gyflawni eu cynllun datblygu personol a oedd yn deillio o'u harfarniad	le	4	66.7%	54.6%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
20	Canran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd iddynt gytuno ar gyfres o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer eu cynllun swydd	le	3	37.5%	34.3%
21	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod hyder ganddynt yng nghywirdeb y wybodaeth am ddangosyddion canlyniadau	le	2	100.0%	26.8%
22	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod y dangosyddion canlyniadau a ddefnyddir yn briodol ac yn rhoi darlun cywir o'r gwaith	le	2	66.7%	23.4%
23	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd yn rhan o unrhyw drafodaeth am y math o ddangosyddion a'u perthnasedd	le	4	80.0%	31.8%
24	Y ganran sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dangosyddion Canlyniadau Clinigol Compass CHKS?	le	3	42.9%	77.0%
25	Y ganran sydd â hyder yng nghywirdeb adroddiadau Dangosyddion Canlyniadau Clinigol Compass CHKS?	le	0	0.0%	8.5%
26	Canran y meddygon ymgynghorol a oedd o'r farn bod eu cynllun swydd yn:				
	egluro'r ymrwymadau a ddisgwyllir ganddynt	le	7	77.8%	65.0%
	trefnu eu hymrwymadau'n glir	le	4	44.4%	60.2%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
	helpu i fynd i'r afael â llwyth gwaith gormodol	le	1	11.1%	18.6%
	nodi'r adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen i gyflawni eu cynllun swydd	le	5	55.6%	19.7%
	sicrhau cydbwysedd cywir rhwng ymrwymiadau sesiynau DCC ac SPA	le	6	66.7%	54.7%
	nodi canlyniadau eu sesiynau SPA yn glir	le	2	22.2%	27.1%
	eu galluogi i weithio'n fwy hyblyg, er enghraifft, drwy amrywio'r ymrwymiad clinigol, gan ganiatáu ar gyfer gwaith rhan amser, gweithio yn ystod y tymor a neilltuo blociau o amser	le	2	22.2%	24.7%
27	Canran y meddygon ymgynghorol sydd o'r farn bod y broses o gynllunio swyddi yn gyffredinol:	Yn eithaf defnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn	6	85.7%	37.2%
28a	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r amser rwy'n ei dreulio ar ofal clinigol wedi cynyddu	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	40.0%	53.7%
28b	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae gofal cleifion wedi gwella	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	33.3%	28.1%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
28c	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Bellach mae gennyf amcanion personol clir o ran gwelliannau i wasanaethau	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	4	44.4%	26.2%
28d	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn gallu cynllunio gweithgarwch clinigol yn well	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	25.0%	23.8%
28e	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy ngwaith yn cael ei gynllunio'n well	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	3	33.3%	32.4%
28f	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy wythnos waith yn fwy tryloyw	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	7	77.8%	55.0%
28g	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Rwy'n gallu gweithio'n fwy hyblyg	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	3	33.3%	27.1%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
28h	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae gwaith tîm wedi gwella o fewn fy arbenigedd	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	6	66.7%	30.0%
28i	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r Bwrdd Iechyd/ Ymddiriedolaeth yn gallu mesur fy mherfformiad a'm cyfraniad at y gwasanaethau a ddarperir	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	22.2%	25.0%
28j	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghynllun swydd bellach yn adlewyrchu gofynion penodol fy arbenigedd	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	6	66.7%	41.5%
28k	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghynllun swydd yn adlewyrchu fy oriau gwaith a'm hymrwymiaadau yn gywir	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	7	77.8%	40.4%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
28l	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r cymorth a'r adnoddau a nodwyd yn fy nghynllun swydd i'm helpu i gyflawni fy amcanion wedi'u darparu	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	4	50.0%	15.0%
28m	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy llwyth gwaith brys yn cael ei gydnabod yn decach	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	50.0%	32.7%
28n	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Rwyf wedi gallu lleihau fy oriau gwaith	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	0	0.0%	13.6%
28o	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Rwy'n gallu cymryd fy holl wyliau blynyddol, neu'r rhan fwyaf ohonynt	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	8	88.9%	75.9%
28p	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy ymrwymadau SPA yn cael eu cydnabod yn deg	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	5	55.6%	26.9%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
28q	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghanlyniadau SPA yn cael eu nodi'n glir	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	4	44.4%	26.9%
28r	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r gydberthynas rhwng clinigwyr a rheolwyr wedi gwella	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	1	11.1%	18.3%
28s	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae gennyf gydberthynas gadarnhaol â rheolwyr	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	8	88.9%	55.3%
28t	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r amgylchedd gwaith wedi gwella	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	22.2%	17.2%
28u	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r gwaith o gynllunio'r gweithlu meddygol wedi gwella.	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	3	33.3%	13.3%

Rhif	Cwestiwn	Ateb	Y nifer a atebodd yn Felindre	% a atebodd yn Felindre	% a atebodd yng Nghymru gyfan
28v	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Gall rhywfaint o'r gwaith a wnaf ar hyn o bryd gael ei wneud gan grwpiau eraill o staff neu feddygon iau	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	3	33.3%	32.1%
28w	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae fy nghyflog yn adlewyrchu fy llwyth gwaith yn well	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	6	66.7%	31.7%
28x	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r cydbwysedd rhwng fy ymrwymadau i'r GIG a'm hymrwymadau eraill yn glir	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	4	57.1%	44.0%
28y	Mewn perthynas â chontract y meddygon ymgynghorol a'r broses o gynllunio swyddi, y ganran a gytunodd â'r datganiad canlynol: Mae'r Contract wedi newid y ffordd rwy'n gweithio er gwell	Yn cytuno'n gryf neu'n cytuno	2	28.6%	20.4%

Atodiad 3

Methodoleg

Gwnaethom gyfweild 13 aelod o staff o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth ym mis Tachwedd 2010 yn y Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru:

- yn y Ganolfan Ganser cyfweilwyd â chyfarwyddwr meddygol yr Ymddiriedolaeth, y cyfarwyddwr clinigol ar gyfer gwasanaethau canser, y cyfarwyddwr gwasanaethau canser a staff o'r adrannau cyllid ac adnoddau dynol a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gynllunio swyddi;
- yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru cyfweilwyd â chyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r cyfarwyddwr meddygol;
- gwnaethom hefyd gyfweild sampl o feddygon ymgynghorol o'r Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru a ddetholwyd gan yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Trafod Lleol.

Adolygwyd sampl o gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol o'r Ganolfan Ganser a Gwasanaeth Gwaed Cymru. Adolygwyd dogfennaeth berthnasol a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth hefyd.

Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2010, gofynnwyd i feddygon ymgynghorol yn yr Ymddiriedolaeth gwblhau arolwg electronig. Gwnaed hyn yn bennaf i gadarnhau eu barn ar gontract y meddygon ymgynghorol. Ymatebodd naw meddyg ymgynghorol i'r arolwg, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 25 y cant. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o feddygon ymgynghorol a ymatebodd, nid ydym wedi defnyddio canrannau yn yr adroddiad.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk